# Sgiliau a rhinweddau personol sy'n cyfrannu at ddatblygiad ysgrifennu academaidd.

2302094
ECEY4008
518 geiriau
25/10/23

Mae yr poster yma yn cyflwyno cyfeiriadau, cymryd nodiadau a rheoli amser o safon uchel er mwyn cefnogi sgiliau ysgrifennu academaidd.

## Cyfeiriadau

Yn ôl y Brifysgol o De Cymru Newydd (2023) mae cyfeirnodi yn sicrhau eich bod yn cydnabod ac yn canmol yr awduron neu gyhoeddwyr eraill yn eich gwaith. Mae hefyd yn ffordd o gefnogi eich honiadau ac eich barn. Fel y mae Prifysgol Lerpwl (2023) yn nodi mae rhaid i chi gyfeirnodi llyfrau, erthyglau cyfnodolion, gwefannau ac ati. Beth bynnag yr ydych wedi cyfeirio ato yn eich gwaith mae rhaid i chi gyfeirio ato neu byddwch yn cymryd rhan mewn llên-ladrad. Mae Llyfr Cyfeirio Harvard (2023) yn cynnig llawer o enghreifftiau o sut i gyfeirnodi eich gwaith yn llwyddiannus ac yn gywir. Yn ôl Times Higher Education (2022), mae yr arddull gyfeirnodi Harvard y mwyaf cyffredin yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn awgrymu bod y math hwn o gyfeirnodi yn cael ei dderbyn a'i gefnogi gan lawer o Brifysgolion. Mae yn ddefnyddiol iawn ac mae ganddo ystod eang o enghreifftiau.

## Cymryd Nodiadau

Yn ôl Stella Cottrell (2019), nid oes trefniant perffaith ar gyfer sut i gymryd nodiadau. Ond mae hi yn awgrymu ystyried y pwyntiau hyn. Pethau fel a yw yr wybodaeth yn ddefnyddiol neu yn berthnasol. Boed ydych eisoes wedi nodi rhywbeth yr un peth neu rywbeth tebyg. Mae Cottrell hefyd yn arddangos gwahanol arddulliau o gymryd nodiadau. Yn dibynnu ar ba fath o ddysgwr ydych chi, fydd yn fwyaf addas i chi. Mae Prifysgol Reading (2023) yn nodi bod cymryd nodiadau effeithiol ac effeithlon yn eich galluogi i ddeall y pwnc yn well, canolbwyntio ar y wybodaeth berthnasol ac osgoi llên-ladrad. Fel arall, maent hefyd yn cynnig rhestr o anfanteision cymryd nodiadau. Hynny yw, gall cymryd nodiadau dynnu sylw un oddi wrth y darlithoedd neu efallai y bydd rhywun yn ysgrifennu gormod a chael ei lethu a'i straenio gyda'u nodiadau.

## Rheoli Amser

Mae Stella Cottrell (2019) yn cynnig mai amser yw dewis. I ymhelaethu, mae hi yn awgrymu, unwaith y byddwch chi yn rheoli eich amser yn effeithiol, bod gennych chi wedyn ddewis sut yr hoffech chi dreulio eich amser a arbedwyd. Er enghraifft, treulio amser gyda theulu a ffrindiau. Un ffordd o reoli eich amser yw rhannu eich gwaith yn gyfnodau amser. Dyfeisiodd yr awdur Francesco Cirillo Dechneg Pomodoro (1980). Mae ei dechneg yn cynnwys yn union hynny, rhannu eich amser gwaith. Yn wreiddiol, y syniad oedd defnyddio amserydd cegin tomato a osod i 25 munud a gweithio yn ystod y cyfnod hwnnw. Ond wrth gwrs yn yr oes fodern mae pobl yn fwyaf tebygol o ddefnyddio eu ffonau i osod amseryddion. Mae Ysgol Haf Harvard (2022) yn cynnig amrywiaeth o awgrymiadau ar sut i reoli eich amser megis gosod nodiadau atgoffa. Maent yn awgrymu y bydd gosod nodiadau atgoffa yn ddefnyddiol i osgoi anghofio pethau ar ddiwrnodau prysur iawn. Mae yr Brifysgol Agored yn awgrymu cael nodau astudio. Gosodwch dargedau gyda'r amser astudio sydd gennych. Bydd hyn yn eich cadw'n llawn cymhelliant ac yn lleihau'r tebygolrwydd y byddwch yn cael eich llethu neu dan straen.

I gloi, mae yr poster hwn wedi trafod ychydig o arddulliau ysgrifennu academaidd sydd yn helpu i gynhyrchu darnau o waith ysgolheigaidd. Mae hefyd wedi dangos bod gan wahanol arddulliau ysgrifennu academaidd reolau a disgwyliadau unigryw. Unwaith y byddwch yn dod o hyd i hyn sydd yn gweithio i chi, byddwch yn gallu llwyddo yn eich gwaith academaidd.

Rhestr Cyfeirnodi -


Cottrell S, (2019) *The study skills handbook*, London Borough, Camden

Franceso Cirillo (2011) *The Pomodoro® Technique*. Ar gael ar - https://francescocirillo.com/products/the-pomodoro-technique (Cyrchwyd: 25/10/23)

The Open University (2023) *Time management skills.* Ar gael ar - https://help.open.ac.uk/time-management-skills (Cyrchwyd: 25/10/23)

Times Higher Education (2022) *How to reference at university level*. Ar gael ar - https://www.timeshighereducation.com/student/advice/how-reference-university-level (Cyrchwyd: 24/10/23)

Harvard Summer School (2022) *8 Time management tips for students*. Ar gael ar - https://summer.harvard.edu/blog/8-time-management-tips-for-students/ (Cyrchwyd: 25/10/23)

University of Liverpool (2023) *Referencing*. Ar gael ar - https://libguides.liverpool.ac.uk/referencing (Cyrchwyd 24/10/23)

University of New South Wales Sydney (2023) *Why is Referencing Important?*. Ar gael ar - https://www.student.unsw.edu.au/why-referencing-important (Cyrchwyd: 17/10/23)

University of Reading (2023) *Reading and making notes*. Ar gael ar - https://libguides.reading.ac.uk/reading/notemaking (Cyrchwyd: 25/10/23

University of St. Augustine for Health Sciences (2023) *9 Proven Time Management Techniques and Tools | USAHS*. Ar gael ar - https://www.usa.edu/blog/time-management-techniques/ (Cyrchwyd 25/10/23)